Theatr Clwyd

Hawdd ei Ddeall

# Rydyn ni'n chwilio am actorion

## Rydyn ni'n chwilio am actorion byddar, anabl neu niwrowahanol yng Nghymru



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Theatr Clwyd**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Galwad Castio Agored ar gyfer actorion byddar, anabl a/neu niwrowahanol yng Nghymru**'.

**Ionawr 2025**

# Pam rydyn ni'n yn chwilio am actorion



Rydyn ni'n cael cynhyrchiad newydd ar daith. Mae hyn yn meddwl sioe fydd yn digwydd mewn nifer o lefydd.




Mae'n rhan o'r **Bartneriaeth Craidd**. Rydych chi'n gallu dysgu mwy am hyn drwy glicio yma.



Rydyn ni eisiau cyfarfod actorion neu actorion o Gymru sydd wedi'u lleoli yng Nghymru sef:

- Pobl fyddar a phobl sydd yn drwm eu clyw
- Pobl anabl
- Pobl ag anabledd dysgu
- **Pobl niwrowahanol**

Mae **pobl niwrowahanol** yn bobl y mae eu meddyliau'n gweithio mewn ffyrdd gwahanol i lawer o bobl eraill.



Mae ar gyfer cynhyrchiad o **Under Milk Wood** gan Dylan Thomas.



Fe fydd yn cael ei gyfarwyddo gan Kate Wasserberg.

Fe fydd 4 cynhyrchiad arall fel rhan o'r **Bartneriaeth Craidd**.



Fe fyddwn ni'n cynnal **clyweliadau** ar gyfer actorion sydd â diddordeb mewn cymryd rhan.

**Clyweliad** ydy pan fydd rhywun yn dangos ei sgiliau actio i ni.

**Fe fydd y clyweliadau yn cael eu cynnal ar y dyddiadau yma:**




Dydd Mawrth, 11 Mawrth yn Pontio ym Mangor.




Nos Wener, 14 Mawrth yn Tŷ Pawb yn Wrecsam.




Nos Fawrth, 18 Mawrth a dydd Mercher 19 Mawrth yn Theatr y Sherman yng Nghaerdydd.





Dydd Iau, 20 Mawrth yn y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin.

# Am Craidd

**Craidd** ydy'r enw ar 5 sefydliad sy'n gweithio gyda'i gilydd. Dyma nhw:

- Theatr Clwyd
- Theatr y Sherman
- Celfyddydau Pontio
- Theatr y Torch a
- Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru




Nod **Craidd** ydy gwneud yn siŵr bod mwy o grwpiau o bobl yn gallu bod yn rhan o'r theatr. A gwneud newidiadau eraill.



**Sara Beer** ydy Cyfarwyddwraig **Craidd**. Mae 5 o bobl eraill yn gweithio ar y prosiect yma. Maen nhw'n cael eu galw yn asiantau ar gyfer newid.



Fe fydd pob sefydliad sy'n rhan o **Craidd** yn gwneud cynhyrchiad teithiol gyda phobl fyddar, anabl a **niwrowahanol.**

Theatr Clwyd fydd yn gwneud y sioe gyntaf. Fe fydd ar daith yn Theatr y Sherman, Celfyddydau Pontio, a Theatr y Torch.

# Beth fydd yn digwydd yn y clyweliad


Yn y **clyweliad** fe fydd:



- Gemau fydd yn iawn i unrhyw un i chwarae.
- Ymarferion cynhesu.
- Sesiwn am symud.



- Fe fydd pob person yn siarad gyda'r gyfarwyddwraig, Kate.
- Mae pobl yn gallu cael clyweliad yn Saesneg neu Iaith Arwyddion Prydain.
- Fe fyddwn ni yn gweld pobl mewn grwpiau bach.





Fe fydd sesiwn yn y bore a sesiwn yn yprynhawn ar gyfer pob dyddiad.

## Beth am fynediad?




Fe fyddwn ni yn cefnogi pawb gyda'r anghenion sydd ganddyn nhw. Rydyn ni'n deall bod gan bawb anghenion gwahanol.

## Sut ydw i'n cymryd rhan?




Anfonwch eich **CV** neu ddolen Spotlight i ni. A dywedwch wrthyn ni ydych chi eisiau dod i glyweliad yng Ngogledd Cymru neu De Cymru. Os gwelwch yn dda gwnewch hyn ar ein ffurflen ar-lein.

Mae gan **C.V** eich holl swyddi a sgiliau wedi'u hysgrifennu i lawr. Fe ddylai ddweud wrthyn ni am eich profiad actio.




Gwefan ydy Spotlight gyda manylion actorion.



Os ydyn ni wedi eich dewis i ymuno â'r **clyweliadau**, Fe fyddwn ni yn cysylltu â chi gyda dyddiad ac amser.



Rydyn ni'n deall os oes angen i chi ddod â rhywun gyda chi i gael cymorth oherwydd eich anghenion.



Ond, fyddwn ni ddim yn gallu talu unrhyw weithwyr cymorth.



Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain yn y **clyweliadau**. A phobl eraill sy'n cynnig sgiliau cymorth. Er enghraifft, **galluogwyr creadigol a disgrifwyr sain**.



Os nad ydych chi'n gallu do di ddyddiadau'r **clyweliadau** ond bod gennych ddiddordeb yn y cyfle, anfonwch e-bost at Jenny Pearce yn: jenny.pearce@theatrclwyd.com.




**Diolch yn fawr.**

# Geiriau Anodd

## Clyweliad

Clyweliad ydy pan fydd rhywun yn dangos ei sgiliau actio i ni.

## CV

Mae gan CV eich holl swyddi a sgiliau wedi’u hysgrifennu i lawr. Fe ddylai ddweud wrthyn ni am eich profiad actio.

## Niwrowahanol

Mae pobl niwrowahanol yn bobl y mae eu meddyliau’n gweithio mewn ffyrdd gwahanol i lawer o bobl eraill.